**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Newidiadau arfaethedig i drefniadau etholiadol y Cynulliad

Ebrill 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/0633
Rhif dogfen:13 /028

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

# Newidiadau arfaethedig i drefniadau etholiadol y Cynulliad

Ebrill 2013

Owain Roberts

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru ar 'Newidiadau arfaethedig i drefniadau etholiadol y Cynulliad' a gyhoeddwyd ar 12 Mawrth 2013

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Gwasanaeth
Ymchwil

## Crynodeb

Ar 12 Mawrth 2013, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ddatganiad ysgrifenedig ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol. Gwnaed y cyhoeddiad ar ôl cynnal ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU ar y mater hwnnw rhwng mis Mai a mis Awst 2012.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Amlinelliad o'r cynigion a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ei ddatganiad ar 12 Mawrth 2013;
- Crynodeb o'r ymatebion i'r datganiad; a
- Gwybodaeth gefndir am gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys manylion am ymgynghoriad Papur Gwyrdd diweddar Llywodraeth y DU ar drefniadau etholiadol y Cynulliad, a'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad presennol o etholaethau seneddol y DU a'i effaith ar y Cynulliad.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ........ **2**

**2. Cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol** ........ **3**

2.1. Ymatebion ........ 4

**3. Cefndir y cyhoeddiad** ........ **6**

3.1. Yr adolygiad o etholaethau seneddol yng Nghymru ........ 6
3.2. Datgysylltu etholaethau seneddol ac etholaethau'r Cynulliad ........ 7
3.3. Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol y Cynulliad i'r dyfodol ........ 9
3.4. Ymatebion i'r Papur Gwyrdd ........ 10

**A. Y broses o adolygu ffiniau yng Nghymru** ........ **12**

# Newidiadau arfaethedig i drefniadau etholiadol y Cynulliad

## 1. Cyflwyniad

Ar 12 Mawrth 2013, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ddatganiad ysgrifenedig ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol.[1] Gwnaed y cyhoeddiad ar ôl cynnal ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU ar y mater hwnnw rhwng mis Mai a mis Awst 2012.

Er nad oedd yn fwriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i newid etholaethau'r Cynulliad, nododd ei fod o blaid bwrw ymlaen â chynigion yn y Papur Gwyrdd sy'n ymwneud ag ymestyn hyd cyfnodau'r Cynulliad; codi'r gwaharddiad ar ymgeiswyr deuol; a gwahardd Aelodau'r Cynulliad rhag cael mandadau lluosog.

Mae'r papur hwn yn rhoi'r cefndir a'r cyd-destun i gyhoeddiad diweddaraf yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys manylion am ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU a gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf o ran newidiadau i etholaethau seneddol San Steffan a'u heffaith bosibl ar Gymru a'r Cynulliad. Mae'r papur hefyd yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion cychwynnol i gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol.

---

[1] Swyddfa Cymru, Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog, ***Future Electoral Arrangements for the National Assembly for Wales***, (Saesneg yn unig) 12 Mawrth 2013

## 2. Cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol

Ar 12 Mawrth 2013, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ddatganiad ysgrifenedig gweinidogol ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol.

O ran cynigion yn ymwneud â newid etholaethau'r Cynulliad, dywedodd:

> As a result of the Electoral Registration and Administration Act 2013, the four UK Boundary Commissions will now report in 2018 on their recommendations for new parliamentary constituencies. The boundaries of parliamentary and Assembly constituencies will remain the same until then, and there is no longer an immediate need to re-establish the link between the two sets of constituencies. **The Government does not therefore intend to proceed with the changes to Assembly constituencies proposed in the Green Paper** *[Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*.[2]

Nododd yr Ysgrifennydd Gwladol, fodd bynnag, ei fod o blaid bwrw ymlaen â chynigion yn y Papur Gwyrdd sy'n ymwneud â hyd cyfnodau'r Cynulliad, ymgeiswyr deuol a mandadau lluosog:

> First, **we will move the Assembly from four to five-year fixed terms**. The term of the current Assembly is, exceptionally, five years, but the Assembly is set to revert to four-year terms after the next Assembly elections in 2016. A permanent move to five-year terms would make a co-incidence between parliamentary and Assembly elections in 2020 (and every twenty years thereafter) less likely.
>
> Secondly, **we will end the prohibition on candidates at Assembly elections standing in both a constituency and a region at the same time**. The Government believe that, in principle, candidates should not be barred from standing in a constituency and a region, and the current prohibition impacts disproportionally on smaller parties.
>
> Thirdly, **we will prohibit Assembly Members from simultaneously sitting as Members of the House of Commons**. The Government do not believe that one person can adequately serve two sets of constituents. **This prohibition would not apply to members of the House of Lords** *[Y Gwasanaeth Ymchwil]*.[3]

O ran codi'r gwaharddiad ar ymgeiswyr deuol, nodwyd bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi rhesymau ychwanegol dros safbwynt Llywodraeth y DU ar y mater hwn:

> The changes made in 2006 were really partisan changes that were put in place to favour the Labour party. That is what we are rectifying now. We're rectifying it to reintroduce the system that existed back in 1999, which I think most parties apart from the Labour party thought was fair and which importantly, respected political commentators thought was fair.[4]

O ran mandadau lluosog, nodwyd hefyd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud, pe bai Aelod Seneddol neu Aelod Cynulliad yn ennill etholiad i'r sefydliad arall,

---

[2] ***Dadleuon Tŷ'r Cyffredin 12 Mawrth 2013 c8WS***
[3] Ibid
[4] Newyddion y BBC, ***Betsan's Blog: Answering the Clwyd West Question***, 12 Mawrth 2012

byddai modd, mae'n debyg, iddo wasanaethu yn y ddau sefydliad am hyd at flwyddyn, ac ychwanegodd:

> If it were a relatively short period we would expect [there] would be a transitional period allowed so one person could leave one institution and go to the other … We certainly don't want to stop anyone moving from one institution to the other but we don't think it's right that somebody should be elected with a view to sitting continuously in both bodies.[5]

Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei ddatganiad y bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth i roi'r newidiadau hyn ar waith cyn gynted â phosibl.[6]

## *2.1. Ymatebion*

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn canolbwyntio ar y cynnig arfaethedig i godi'r gwaharddiad ar ymgeiswyr deuol.

Teimlai'r Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a fu'n gyfrifol am gyflwyno'r gwaharddiad ar ymgeiswyr deuol drwy *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*,[7] y dylai'r gwaharddiad barhau:

> This seems to me to be a fundamental principle of democracy. If the voters don't want you and reject you, you shouldn't still defy their wishes and become an Assembly member. That is party blind. You shouldn't be able to lose and then win. What sort of democracy is that?[8]

Roedd Simon Thomas AC, fodd bynnag, yn falch o weld y gwaharddiad yn cael ei godi gan ei fod, meddai, yn  un o effeithiau gwaethaf y blaid Lafur o chwarae'r ffiniau.[9] Roedd Glyn Davies AS, yr Aelod Seneddol Ceidwadol dros Sir Drefaldwyn yn ategu'r farn hon, am ei fod yn ystyried y gwaharddiad ar ymgeiswyr deuol yn ddarn o ddeddfwriaeth milain syml gan y blaid Lafur. Roedd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd o'r farn bod y gwaharddiad yn tanseilio hygrededd y system etholiadol drwy gosbi pleidiau am lwyddo.[10]

Dywedodd yr Athro Roger Scully, o Ganolfan Llywodraethiant Cymru:

> The change, introduced in the 2006 Government of Wales Act, was highly unfortunate. The manner in which it was done appeared deeply partisan … the change back will likely be a good thing for the quality of membership of the National Assembly.[11]

Roedd Stephen Brooks, Cyfarwyddwr y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, Cymru hefyd yn croesawu cynnig Llywodraeth y DU , gan ddweud:

> This is very welcome news and we have been calling for a lifting of this ban since it was put in place in 2006. Reversing the ban brings us back in line with the norm for elections under

---

[5] Wales Online, ***Ban lifted on AMs standing for both constituency and regional seat***, 12 Mawrth 2013
[6] Ibid
[7] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Pennod 32) (Saesneg yn unig)
[8] Newyddion y BBC, ***Betsan's Blog: Answering the Clwyd West Question***, (Saesneg yn unig) 12 Mawrth 2012
[9] Wales Online, ***Ban lifted on AMs standing for both cnstituency and regional seat***, 12 Mawrth 2013
[10] Ibid
[11] Ibid

> this system. We have evidence from countries' reviews into this question, such as in Scotland and New Zealand.
>
> The conclusion has always been that there is no justification for such a ban. In tough times and with such a small Assembly we cannot afford to have our best talent on the bench.

Ychwanegodd Mr Brooks y dylai diwygiadau Llywodraeth y DU fynd ymhellach, gan ddweud mai cael Cynulliad mwy a etholwyd drwy'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fyddai'r ffordd orau o gydbwyso anghenion Cynulliad cryfach gydaphob Aelod Cynulliad wedi'i ethol o dan yr un mandad.[12]

Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol, fodd bynnag, yn gwrthod galwadau o'r fath yn bendant, a dywedodd, yn ôl y sôn, y gallai'r Cynulliad wneud rhagor o fewn ei strwythurau presennol:

> It seems to me there is a lot of spare capacity in the Assembly... They could sit for longer. At the moment their plenary sessions are very short. Broadly speaking, their working week at the Assembly is two, two and a half days. I think there is plenty of scope for them maybe to emulate Westminster sitting hours.[13]

---

[12] Wales Online, ***Ban lifted on AMs standing for both constituency and regional seat***, 12 Mawrth 2013
[13] Wales Online, ***Ban lifted on AMs standing for both constituency and regional seat***, 12 Mawrth 2013

## 3. Cefndir y cyhoeddiad

### *3.1. Yr adolygiad o etholaethau seneddol yng Nghymru*

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2010, dechreuodd Llywodraeth Glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar raglen ddiwygio gwleidyddol er mwyn atgyweirio a moderneiddio yr hyn yr oedd yn ei amgyffred fel system wleidyddol simsan.[14]

Un rhan annatod o raglen Llywodraeth y DU oedd *Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011*[15] ('Deddf 2011'), a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bedwar Comisiwn Ffiniau y DU (ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban) gynnal adolygiad o etholaethau seneddol yn eu hardal hwy i sicrhau:

- y dylid gostwng cyfanswm nifer yr etholaethau seneddol yn y DU o 650 i 600 (502 o seddi yn Lloegr, 16 yng Ngogledd Iwerddon, 52 yn yr Alban **a 30 yng Nghymru**); ac
- y dylai maint poblogaeth pob etholaeth fod o fewn 5 y cant i 'gwota etholaethol y DU', sef 76,641.

Mae manylion ynghylch y modd y cynhelir yr adolygiadau o ffiniau yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth am y Comisiwn Ffiniau i Gymru, i'w gweld yn **Atodiad A**.

Roedd Deddf 2011 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r pedwar comisiwn ffiniau gyflwyno adroddiadau terfynol ar eu hadolygiadau (a elwir yn 'chweched adolygiad cyffredinol') i Lywodraeth y DU cyn 1 Hydref 2013, y byddai'n rhaid i ddau Dŷ Senedd y DU eu cymeradwyo drwy Orchymyn cyn y byddent yn cael eu gweithredu. Y bwriad oedd cyflwyno'r newidiadau erbyn Etholiad Cyffredinol nesaf y DU ar 7 Mai 2015.

Cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei gynigion cychwynnol ar 11 Ionawr 2012.[16] Yn dilyn hyn, ar 24 Hydref 2012, cyhoeddwyd cynigion diwygiedig, a oedd yn ystyried ymatebion i'r cynnig gwreiddiol.[17]

Lleihawyd y tebygolrwydd y byddai'r chweched adolygiad cyffredinol yn arwain at unrhyw newidiadau ymarferol sylweddol i'r ffiniau, fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddiad gan y Gwir Anrhydeddus Nick Clegg AS, y Dirprwy Brif Weinidog, ar 6 Awst 2012, pan ddywedodd na fyddai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn pleidleisio o blaid cymeradwyo'r Gorchymyn a oedd yn rhoi argymhellion y Comisiynau Ffiniau ar waith yn sgîl cynlluniau i beidio â bwrw ymlaen â chynigion Llywodraeth y DU ar

---

[14] Llywodraeth y DU, ***The Coalition: Our programme for government***, Mai 2010
[15] ***Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011Deddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau Seneddol 2011*** (Pennod 1) (Saesneg yn unig)
[16] Y Comisiwn Ffiniau i Gymru, ***Cynigion cychwynnol***, Ionawr 2012
[17] Y Comisiwn Ffiniau i Gymru, ***Cynigion diwygiedig***, Hydref 2012

gyfer diwygio Tŷ'r Arglwyddi.[18] Yn dilyn hynny, gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad ar y mater i Dŷ'r Cyffredin ar 3 Medi 2012.[19]

Ni fydd angen pleidlais yn Senedd y DU ar Orchymyn i roi'r newidiadau i'r ffiniau diwygiedig ar waith bellach, yn dilyn gosod cymalau yn yr hyn a ddaeth yn *Ddeddf Gofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013*,[20] yn ystod ei hynt drwy Senedd y DU.

Canlyniad y cymalau newydd, a osodwyd drwy welliannau a wnaed yn ystod cyfnod y Bil ar y pryd mewn Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi, oedd dod â'r **chweched adolygiad cyffredinol i ben drwy ohirio'r dyddiad y byddai'n ofynnol i'r Comisiynau Ffiniau gyflwyno eu hadroddiadau terfynol ar etholaethau seneddol i'r Ysgrifennydd Gwladol tan 2018** (yn hytrach na 1 Hydref 2013 fel oedd yn ofynnol yn flaenorol gan Ddeddf 2011).[21]

Ystyriwyd y gwelliant hwn i'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Ionawr 2013, pan fu'r Gwir Anrhydeddus Andrew Lansley AS, Arweinydd Tŷ'r Cyffredin, yn dadlau yn erbyn gohirio'r dyddiad y byddai'n rhaid i'r comisiynau ffiniau gyflwyno eu hadroddiadau terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol tan 2018. Fodd bynnag, trechwyd y cynnig i anghytuno â gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi, a phleidleisiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gyda'r gwrthbleidiau i drechu Llywodraeth y DU ar y mater.[22]

## *3.2. Datgysylltu etholaethau seneddol ac etholaethau'r Cynulliad*

Mae Deddf 2011 hefyd yn darparu ar gyfer **datgysylltu etholaethau seneddol ac etholaethau'r Cynulliad yng Nghymru**. Mae Adran 13(1) o Ddeddf 2011 yn nodi:

> The Assembly constituencies are the constituencies specified in the *Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) Order 2006* (S.I. 2006/1041)[23] as amended by—
>
> *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2008* (S.I. 2008/1791)[24].[25]

Mae hon yn debyg i'r sefyllfa yn yr Alban lle y mae etholaethau seneddol yr Alban ac etholaethau seneddol y DU wedi'u datgysylltu ers Etholiad Cyffredinol y DU yn 2005. Digwyddodd hyn o ganlyniad i'r *Scottish Parliament (Constituencies) Act 2004*,[26] a oedd yn dileu'rcyswllt statudol rhwng y ddwy gyfres o etholaethau.[27]

---

[18] Newyddion y BBC, *Nick Clegg: Lords reform plans to be abandoned*, 6 Awst 2012
[19] *Dadl Tŷ'r Cyfferdin 3 Medi 2012 c35*
[20] *Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadaol 2013* (Pennod 6) (Saesneg yn unig)
[21] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Commons Library Standard Note SN05929: Constituency boundaries: the sixth general review*, (Saesneg yn unig) 1 Chwefror 2013
[22] The Guardian, *Lib Dems vote with Labour to reject constituency boundary review*, 29 Ionawr 2013
[23] *Parliamentary Constituencies and Assembly Electoral Regions (Wales) Order 2006 (S.I. 2006/1041)*
[24] *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2008* (O.S. 2008/1791).
[25] Deddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 (Pennod 1), Adran 13(1) (Saesneg yn unig)
[26] *Scottish Parliament (Constituencies) Act 2004* (Pennod 13) (Saesneg yn unig)

Mewn rhai amgylchiadau cyfyng, fodd bynnag, mae Deddf 2011, (ynghyd â darpariaethau yn *Neddf Etholaethau Seneddol 1986*[28]) yn darparu ar gyfer diwygio etholaethau'r Cynulliad drwy Orchymyn, wedi i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell gwneud newidiadau i faint etholaethau seneddol yng Nghymru.

Er na fydd cynlluniau i ostwng nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru yn digwydd bellach cyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2015, maedatgysylltu etholaethau'r Cynulliad ac etholaethau seneddol eisoes wedi gadael ei hôl.

Mae *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) (Diwygio) 2011*,[29] a ddaeth i rym ar 14 Rhagfyr 2011, yn gwneud newidiadau i etholaethau a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad ond nid yw'n cynnwys etholaethau seneddol, sy'n aros yr un fath. Mae'r Gorchymyn yn diwygio *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006* ac yn gwneud mân newidiadau i bedair o etholaethau'r Cynulliad o ganlyniad i newidiadau a wnaed i ardaloedd ffiniau llywodraeth leol.

Etholaethau'r Cynulliad y mae hyn yn cael effaith arnynt:

- Brycheiniog a Sir Faesyfed;
- Merthyr Tudful a Rhymni;
- Ogwr;
- Pontypridd;
- De Caerdydd a Phenarth;
- Gogledd Caerdydd;
- Bro Morgannwg.

Yn ei dystiolaeth i Bwyllgor y Drydedd Ddeddfwriaeth Ddirprwyedig, Tŷ'r Cyffredin, ar 21 Tachwedd 2011, eglurodd Mike Harper AS, Ysgrifennydd Seneddol Swyddfa'r Cabinet ar y pryd, y cefndir i'r newidiadau a geir yn y Gorchymyn:

> The Boundary Commission for Wales was the only boundary commission to be engaged in interim reviews while the Bill that became the Parliamentary Voting System and Constituencies Act 2011 was going through Parliament. That Act provides for any interim reviews by the Boundary Commission for Wales that were pending at the time of the passing of the 2011 Act to be completed and implemented, although the recommendations would apply only for the purposes of the National Assembly for Wales, not for Westminster.

---

[27] Ceir rhagor o wybodaeth am y sefyllfa yn yr Alban ym Mhennod 3.2 o bapur y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ***Yr adolygiad o etholaethau seneddol yng Nghymru***, Medi 2011
[28] ***Deddf Etholaethau Seneddol 1986* (Pennod 56)**
[29] ***Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006* (O.S.2011/0000)**

> This order implements the recommendations of four such pending reviews. They make recommendations in relation to the boundaries between the following constituencies: Brecon and Radnorshire, and Merthyr Tydfil and Rhymney; Ogmore and Pontypridd; Cardiff North, and Cardiff South and Penarth; and Cardiff South and Penarth, and Vale of Glamorgan.
>
> The Boundary Commission for Wales carried out the reviews as a result of four orders made by Welsh Ministers during the period from 2008 to 2010 that made changes to the boundaries of local government areas in Wales. As a result, **the boundary between certain parliamentary constituencies in the areas covered by the local government boundary changes no longer followed the new local government boundaries** *[RS emphasis]*.[30]

Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Seneddol fod y newidiadau yn gymharol fach a'u bod yn **effeithio ar gyfanswm o oddeutu 900 o etholwyr ar draws y pedwar adolygiad, er ei bod yn amlwg fod y newidiadau, i etholwyr unigol, yn rhai sylweddol, o bosibl**.[31]

## *3.3. Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol y Cynulliad i'r dyfodol*[32]

Ar 21 Mai 2012, yn bennaf oherwydd y cynigion i ostwng nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru o 40 i 30, lansiodd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, ymgynghoriad Papur Gwyrdd o 12 wythnos ar drefniadau etholiadol y Cynulliad i'r dyfodol.[33] Yn ôl yr hysbysiad i'r wasg a oedd yn cyd-fynd ag ef, mae'r Papur Gwyrdd yn:

> amlinellu opsiynau a chynigion y Llywodraeth ar gyfer newidiadau i gyfansoddiad y Cynulliad, yn cynnwys nifer etholaethau'r Cynulliad, hyd tymhorau'r Cynulliad, hawl ymgeiswyr i sefyll yn yr un etholiad mewn etholaeth Cynulliad a rhanbarth a hawl Aelodau'r Cynulliad i eistedd yn Senedd San Steffan hefyd ar yr un pryd.[34]

Roedd y Papur Gwyrdd ei hun yn datgan bod y datblygiadau ym maes datganoli yng Nghymru yn ddiweddar hefyd yn gefndir i'r ymgynghoriad hwn,[35] gan ychwanegu:

> Bellach mae gan y Cynulliad bwerau deddfu ymhob un o'r ugain maes sydd wedi'u datganoli i Gymru yn dilyn pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011 …
>
> Dylai'r adolygiad helpu i ategu setliad datganoli Cymru drwy beri bod y sefydliadau datganoledig yng Nghymru – y Cynulliad a Llywodraeth Cymru – yn fwy atebol i'r bobl a wasanaethant, a thrwy nodi ble y gellir symleiddio terfynau'r setliad.[36]

Roedd y Papur Gwyrdd yn gofyn barn am benodol am y materion a ganlyn:

---

[30] *HC Deb Pwyllgor y Drydedd Ddeddfwriaeth Ddirprwyedig ar 21 Tachwedd 2011 c4-5*
[31] Ibid
[32] Ceir rhagor o wybodaeth am y Papur Gwyrdd gwreiddiol ym ***Mhapur Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol ar: Drefniadau etholiadol y Cynulliad yn y dyfodol***, Mehefin 2012
[33] Swyddfa Cymru, ***Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol***, Mai 2012
[34] Ibid, tud 8
[35] Ibid, tud 11
[36] Swyddfa Cymru, ***Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol***, Mai 2012

- **Cynigion yn ymwneud â newid etholaethau'r Cynulliad:** I aros am ostwng nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru o 40 i 30, gofynnodd y Papur Gwyrdd a ddylai'r Cynulliad barhau â'i 40 o etholaethau presennol neu a ddylid ail-sefydlu'r cyswllt rhwng etholaethau seneddol a'r Cynulliad;
- **Hyd cyfnodau'r Cynulliad:** Yn dilyn newid y cyfnodau seneddol sefydlog i bum mlynedd yn unol â *Fixed-terms Parliaments Act 2011*, gofynnodd y Papur Gwyrdd am farn ynghylch a ddylai cyfnodau'r Cynulliad yn y dyfodol gael eu hymestyn o bedair blynedd i bum mlynedd i osgoi gwrthdaro â dyddiadau Etholiad Cyffredinol y DU yn y dyfodol.
- **Ymgeiswyr deuol:** Nododd y Papur Gwyrdd fod Llywodraeth y DU o blaid codi'r gwaharddiad ar ymgeiswyr deuol a geir yn Neddf 2006 (sy'n gwahardd aelodau rhag sefyll mewn etholaethac ar restr ranbarthol pleidiau ar yr un pryd).
- **Mandadau lluosog:** Roedd y Papur Gwyrdd yn gofyn barn am wahardd Aelodau'r Cynulliad rhag gwasanaethu hefyd fel Aelodau o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi.

Er bod Llywodraeth y DU wedi sefydlu Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yn ddiweddar ('Comisiwn Silk')[37] i adolygu'r trefniadau cyllidol a chyfansoddiadol yng Nghymru, dywed y Papur Gwyrdd nad yw materion sy'n ymwneud ag ethol Aelodau'r Cynulliad yn rhan o gylch gwaith y Comisiwn[38] ac y byddai angen ymdrin â'r rhain ar wahân.

Hefyd, nid yw 'etholiadau' o fewn cwmpas pwerau deddfu'r Cynulliad ar hyn o bryd o dan Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*[39], ac felly mae'n fater a gadwyd yn ôl fel rhan o gyfrifoldeb Senedd a Llywodraeth y DU.

## *3.4. Ymatebion i'r Papur Gwyrdd*

Mewn ymateb i gyhoeddi'r Papur Gwyrdd, beirniadodd y Prif Weinidog y cynigion sy'n ymwneud â newid etholaethau'r Cynulliad, gan ddweud:

> There is no mandate for this. The electoral system for the assembly is a matter for the people of Wales and no one else. The Prime Minister has assured me that there would be no change to future electoral arrangements without the agreement of the Assembly. [40]

Ailadroddwyd y safbwyntiau hyn wedyn yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ail ran cylch gwaith Comisiwn Silk yn ymwneud â phwerau'r Cynulliad. Roedd ei phapur tystiolaeth yn nodi mai dim ond gyda chaniatâd y Cynulliad y dylid gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol y Cynulliad, a chyda

---

[37] Ceir rhagor o wybodaeth am Gomisiwn Silk yn y papur ymchwil ***Comisiwn Silk*** a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Tachwedd 2011.
[38] Swyddfa Cymru, ***Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol***, Mai 2012
[39] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Pennod 32) (Saesneg yn unig)
[40] Newyddion y BBC, ***Welsh Assembly voting: Cheryl Gillan proposes new seats for 2016 election***, 21 Mai 2012

chefnogaeth mandad amlwg gan Etholiad Cyffredinol y DU'.[41] Ychwanegodd yn ei ymateb:

> O ran Etholiadau, San Steffan ddylai fod yn gyfrifol am ddeddfu ar etholiadau i Dŷ'r Cyffredin a Senedd Ewrop. Ond, fel y dadleuodd Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i bapur ymgynghori Swyddfa Cymru ar drefniadau etholiadol y dyfodol i Gynulliad Cymru, ni ddylid cadw pwerau Senedd y DU mewn perthynas ag etholiadau i'r Cynulliad, neu i awdurdodau lleol Cymru (ar wahân i'r Eithriadau i bwerau deddfwriaethol presennol y Cynulliad, mewn perthynas ag etholfraint a chofrestru 11 etholiadol, a ddylai gael eu cadarnhau fel materion a gedwir). **Felly dylai fod gan y Cynulliad bŵer cyffredinol i ddeddfu ar etholiadau Cymru (gan gynnwys gweinyddu etholiadau, telerau swyddi cynghorwyr lleol, a systemau pleidleisio), yn ddarostyngedig i'r pwerau hynny a gedwir. Mae'n bosibl byddai angen gweithdrefn arbennig, fel mwyafrif arbennig, os yw'n dewis deddfu ar etholiadau'r Cynulliad.** *[pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]*.[42]

Roedd y Prif Weinidog, fodd bynnag, yn llai beirniadol ynghylch cynigion eraill a geir yn y Papur Gwyrdd, gan ddweud mewn dadl ar y Papur Gwyrdd yn y Cynulliad ar 12 Mehefin 2012:

> Nid wyf am fod yn gwbl negyddol am y Papur Gwyrdd.  Rwy'n croesawu, er enghraifft, yr ymgynghoriad ar a ddylai'r Cynulliad gael tymhorau o bum mlynedd. Y farn gyffredinol yn y Siambr yw y dylid osgoi gwrthdaro ag etholiadau cyffredinol y DU.[43]

Trafodwyd y Papur Gwyrdd hefyd yn yr Uwch-bwyllgor Cymreig yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mehefin 2012[44] ac yn Neuadd San Steffan yn Nhŷ'r Cyffredin ar 3 Gorffennaf 2012.[45]

Daeth ymgynghoriad Swyddfa Cymru ar y Papur Gwyrdd i ben ar 13 Awst 2012. Cafwyd cyfanswm o 68 o ymatebion a chyhoeddwyd crynodeb ohonynt gan Swyddfa Cymru ym mis Tachwedd 2012.[46] Cafwyd ymatebion i'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, y pedair plaid yn y Cynulliad, ymateb ar wahân gan Geidwadwyr Cymru, gan dri Aelod Seneddol[47] sy'n cynrychioli etholaethau yng Nghymru a chan 11 o Aelodau'r Cynulliad, ymhlith eraill.[48]

---

[41] Llywodraeth Cymru, ***Tystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru***, 18 Chwefror 2013
[42] Ibid
[43] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn***, 12 Mehefin 2012
[44] ***HL Deb 18 June 2012 cGC125***
[45] ***HC Deb 3 Gorffennaf 2012 c187WH***
[46] Swyddfa Cymru, ***Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol: Crynodeb o'r ymatebion***, Tachwedd 2012
[47] Guto Bebb, Madeline Moon a Peter Hain
[48] Christine Chapman, David Rees, Janice Gregory, Julie James, Julie Morgan, Ken Skates, Leighton Andrews, Lesley Griffiths, Mark Isherwood, Mike Hedges, Jeff Cuthbert

## A. Y broses o adolygu ffiniau yng Nghymru

Y corff sy'n gyfrifol am adolygu ffiniau seneddol a ffiniau etholaethau a rhanbarthau etholiadol yng Nghymru yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y Comisiwn'). Mae'n un o bedwar Comisiwn Ffiniau i'r DU, ynghyd â Chomisiynau Ffiniau ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Cafodd y Comisiwn ei sefydlu ac mae ei gyfansoddiad yn unol ag Atodlen 1 i *Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986*[49] ("Deddf 1986") (fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992* a *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*) er mwyn adolygu'n barhaus y dosbarthiad seddi mewn etholiadau seneddol. Mae'n Gorff Cyhoeddus cynghorol Anadrannol a gaiff ei ariannu gan Swyddfa'r Cabinet.

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gynnal adolygiad cyffredinol o bob etholaeth yng Nghymru o bryd i'w gilydd, ac am gyflwyno adroddiadau i Lywodraeth y DU yn argymell sut y dylid dosbarthu seddi seneddol yng Nghymru. Mae Deddf 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiadau o'r fath unrhyw bryd rhwng wyth a deuddeng mlynedd o ddyddiad cyflwyno'r adroddiad blaenorol.

Yr adolygiad diwethaf a gynhaliwyd gan y Comisiwn oedd y pumed adolygiad cyffredinol o etholaethau seneddol (hwn hefyd oedd yr adroddiad cyntaf ar etholaethau'r Cynulliad), a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 14 Rhagfyr 2005. *Roedd Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006*[50] yn rhoi'r argymhellion a geir yn yr adroddiad ar waith, gan gynnwys cadw nifer y seddi seneddol yng Nghymru i 40 a gwneud nifer o newidiadau i 24 o'r etholaethau hynny. Daeth y Gorchymyn i rym cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2007 ac roedd hefyd yn sail i'r ffiniau seneddol a ddefnyddiwyd yng Nghymru ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU yn 2010.

---

[49] *Deddf Etholaethau Seneddol 1986* (Pennod 56)
[50] *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006*, SI 2006/1041